



# Cyfleuster Cyfrinair Pensiwn

Dros y blynyddoedd, gofynnodd llawer o'n haelodau pam eu bod yn gorfod ysgrifennu atom i roi gwybod am newidiadau yn eu hamgylchiadau personol yn hytrach na chofrestru unrhyw newidiadau'n ddidrafferth dros y ffôn.

Tan nawr, teimlem mai llythyr ysgrifenedig oedd yr unig ddull digon diogel o wneud newidiadau i gofnodion. Y dyddiau hyn fodd bynnag, gyda mwy a mwy o welliannau ym maes technoleg, gallwn ddarparu dull diogel o newid eich manylion dros y ffôn.

Mae'r cyfleuster cyfrinair yn wasanaeth newydd sy'n cael ei gynnig gan yr Adran Bensiynau. Trwy gofrestru cyfrinair unigryw gyda'r Adran Bensiynau, ynghyd ag un darn arall o wybodaeth bersonol, mae modd sefydlu system ddiogelwch gyda chyfres o wiriadau diogelwch. Ar ôl gwneud hynny, unrhyw bryd y bydd aelodau'n dymuno gofyn am wybodaeth neu newid manylion personol, cânt eu harwain drwy gyfres o wiriadau diogelwch (gofyn iddynt gadarnhau eu cyfrinair ac ati) a bydd modd gwneud y newidiadau ar unwaith (bydd cadarnhad ysgrifenedig o unrhyw newid yn cael ei anfon at yr aelod bob tro y bydd newid yn digwydd).

Yn ogystal â hyn, byddwn hefyd yn treialu system ffôn newydd i'n helpu i ymdrin â'ch ymholiadau'n fwy effeithlon. Bydd y system newydd yn ein galluogi i adnabod eich cofnod pensiwn o'ch rhif ffôn. Bydd eich cofnodion pensiwn yn cael eu dangos yn awtomatig i'r cynorthwyydd pensiwn fydd yn ymdrin â'ch galwad, ac os byddwch wedi cofrestru cyfrinair, gallwn wneud y newidiadau fyddwch chi eu hangen ar unwaith.

I gofrestru eich cyfrinair, llenwch y slip ateb isod a'i ddychwelyd i :

**Yr Adran Bensiynau**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Oldway House, Porth
CF39 9ST

Rhif Yswiriant Gwladol : ______________________ Dyddiad Geni : ______________________

Enw Llawn : (Mr/Mrs/Miss) ______________________________________________

Rhif Ffôn : ______________________ Cyfeiriad e-bost : ______________________
(gan gynnwys y Cod ardal)

Cyfenw eich mam cyn priodi : ______________________________________________

Cyfrinair : ______________________________________________
(o leiaf 7 llythyren)

Llofnod : ______________________ Dyddiad : ______________________

STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR